# Cytundeb claf/rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol i therapi gwrth-ganser systemig i blant a phobl ifanc

Enw'r ysbyty: ______________________

______________________

**Gweithiwr iechyd proffesiynol cyfrifol:**

Enw:______________________

Teitl swydd: ______________________

**Arwydd ar gyfer triniaeth (diagnosis):**

______________________

**Enw'r cwrs triniaeth arfaethedig** (Cynhwyswch esboniad byr os nad yw'r term meddygol yn glir. Cynhwyswch enw cynllun/protocol)

Cynllun/protocol: ______________________

**Manylion y claf (label)**

Cyfenw: ______________________

Enw(au) cyntaf: ______________________

______________________

Dyddiad geni: ______________________

Rhif GIG/rhif dynodwr lleol:

______________________

Gofynion arbennig:
(ee iaith/dull cyfathrebu arall):

______________________

______________________

**Cymryd rhan mewn treial clinigol ffurfiol:**

☐ Ydw ☐ Nac ydw

(Bydd ffurflen gydsynio treial clinigol penodol wedi'i llofnodi os mai 'Ydw' yw'r ateb i'r cwestiwn uchod. Gellir defnyddio'r ffurflen hon hefyd, i fanylu ar y sgîl-effeithiau a drafodir os yw'n briodol)

Enw'r treial: ______________________

**Mae'r cyffuriau canlynol wedi'u cynnwys yn eich triniaeth chi/eich plentyn**
(Nodwch bob un sy'n berthnasol):

| | | | |
|---|---|---|---|
| ☐ Asparaginase | ☐ Daunorubicin | ☐ Melphalan | ☐ Vinorelbine |
| ☐ Bleomycin | ☐ Doxorubicin | ☐ Mitoxantrone | ☐ Steroidau:__________ |
| ☐ Busulfan | ☐ Etoposide | ☐ Mercaptopurine | __________ |
| ☐ Carboplatin | ☐ Fludarabine | ☐ Methotrexate | |
| ☐ Cisplatin | ☐ Gemtuzumab ozogamicin | ☐ Rituximab | ☐ Arall (heb ei restru): |
| ☐ Cyclophosphamide | ☐ Idarubicin | ☐ Topotecan | __________ |
| ☐ Cytarabine | ☐ Ifosfamide | ☐ Vinblastine | |
| ☐ Dactinomycin | ☐ Irinotecan | ☐ Vincristine | __________ |

**Bwriad y cynllun triniaeth arfaethedig**

☐ Rheoli clefydau a/neu iachâd posibl ☐ Rheoli/lliniaru clefyd-heb ddisgwyl iachâd

**Gallech chi/eich plentyn gael triniaeth drwy'r llwybrau canlynol**
(Ticiwch bob un sy'n berthnasol):

☐ Mewnwythiennol (i mewn i'r llif gwaed)
☐ Geneuol (trwy'r geg)
☐ Mewnthecal (pigiad i hylif yr asgwrn cefn)
☐ Mewnfentrol (pigiad i'r bylchau yn yr ymennydd)
☐ Isgroenol (pigiad o dan y croen)
☐ Mewngyhyrol (pigiad i mewn i gyhyr)

**Bydd cyfanswm hyd eich triniaeth chi/eich plentyn tua: ______________**

**Bydd triniaeth yn cael ei darparu yn y lleoliadau canlynol** (Ticiwch bob un sy'n berthnasol):

☐ Prif Ganolfan Driniaeth: ______________________

______________________

☐ Uned Gofal a Rennir/Uned Gofal Pediatrig a Rennir (POSCU):

______________________

______________________

☐ Cartref ☐ Claf mewnol ☐ Claf allanol ☐ Arall

Dynodydd/label claf

# Datganiad gweithiwr iechyd proffesiynol

(I'w lenwi gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd â gwybodaeth briodol o'r weithdrefn arfaethedig, fel y nodir ym mholisi cydsyniad yr ysbyty/ Ymddiriedolaeth/Bwrdd y GIG)

☑ Ticiwch bob blwch perthnasol

☐ Rwyf wedi egluro cwrs y driniaeth i glaf/rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol. Yn benodol, rwyf wedi egluro sgîl-effeithiau posibl y driniaeth.

## Risgiau sylweddol, anochel neu sy'n digwydd yn aml.

**System Imiwnedd/ system gwaed:**

☐ Mae risg uwch o ddatblygu heintiau difrifol pan fyddwch ar driniaeth a all fygwth bywyd neu arwain at farwolaeth. Cysylltwch â'ch tîm trin ar unwaith os:

- **ydy eich tymheredd yn mynd dros 38°C**
- **rydych chi'n teimlo'n sâl yn sydyn (hyd yn oed gyda thymheredd arferol)**

Cysylltwch â'ch tîm trin os ydych chi'n meddwl eich bod wedi bod mewn cysylltiad ag achos o:

- **Brech yr ieir**
- **Y frech goch**

☐ Anemia (nifer isel o gelloedd coch y gwaed). Efallai y bydd angen trallwysiad gwaed arnoch.

☐ Cleisio/gwaedu. Efallai y bydd angen trallwysiad platennau arnoch.

☐ Gall canser gynyddu eich risg o ddatblygu ceulad gwaed (thrombosis), a gall cael triniaeth gyda meddyginiaethau gwrth-ganser gynyddu'r risg hon ymhellach. Gall ceulad gwaed achosi poen, cochni a chwyddo mewn coes, neu ddiffyg anadl a phoen yn y frest – rhaid i chi ddweud wrth eich meddyg ar unwaith os oes gennych unrhyw un o'r symptomau hyn.

☐ Ymatebion alergaidd/gorsensitifrwydd.

**System stumogol-berfeddol (gan gynnwys iau/pancreas):**

☐ Teimlo'n sâl (cyfog).

☐ Bod yn sâl(chwydu).

☐ Chwant bwyd gwael.

☐ Newid blas.

☐ Angen cymorth maethol.Ceg ddolurus (mucositis).

☐ Poen yn yr abdomen (bol)

☐ Dolur rhydd.

☐ Rhwymedd.

☐ Llosg cylla/diffyg traul.

**System stumogol-berfeddol (gan gynnwys iau/pancreas parhad:**

☐ Llid y pancreas.

☐ Amhariad ar weithrediad yr iau/afiechyd gwythiennol-achludol.

**System niwrolegol (gan gynnwys ymennydd/nerfau ymylol a synhwyrau):**

☐ Nam ar weithrediad yr ymennydd (pyliau/ trawiadau/newidiadau mewn lefelau ymwybyddiaeth) (enseffalopathi).

☐ Poen/diffyg teimlad/ysfa mewn dwylo/traed/cyrion (niwropathi).

☐ Gwendid cyhyr/materion symudedd (niwropathi).

☐ Nam ar y clyw.

☐ Nam ar y golwg.

**System gardiofasgwlaidd (gan gynnwys calon a llestri gwaed):**

☐ Nam ar weithrediad y galon.

☐ Llid dwylo/traed (fascwlitis).

☐ Pwysedd gwaed uchel.

**System anadlol (ysgyfaint):**

☐ Nam ar weithrediad yr ysgyfaint.

**System wrinol (gan gynnwys yr arennau/ pledren):**

☐ Nam ar weithrediad yr arennau.

☐ Llid o fewn y bledren.

☐ Gwaed yn yr wrin (hematwria).

☐ Syndrom ciliad tiwmor.

☐ Aflonyddiadau electrolyt (halen).

**System endocrin (yn cynnwys hormonau):**

☐ Lefelau siwgr gwaed ansefydlog.

☐ Angen amnewid hormonau (ee thyroid/twf/steroid).

Dynodydd/label claf

**Croen (gan gynnwys gwallt):**

- ☐ Colli gwallt.
- ☐ Brechau.
- ☐ Croen sych.
- ☐ Newidiadau ewinedd.

**Twf a datblygiad:**

- ☐ Nam ar weithrediad yr ymennydd (canolbwyntio a dysgu) - gall hyn fod yn barhaol.
- ☐ Nam ar dwf a datblygiad esgyrn.
- ☐ Niwed osteonecrosis-asgwrn oherwydd tarfu ar gyflenwad gwaed i'r asgwrn.

**Ffrwythlondeb a beichiogrwydd:**

- ☐ Gall rhywfaint o therapi gwrth-ganser effeithio ar y gallu i gael babi yn y dyfodol. I blant nad ydynt wedi cyrraedd glasoed, efallai y bydd yn bosibl rhewi a storio meinwe ofari neu geilliol. Gan fod hon yn dechneg gymharol newydd, gall y driniaeth hon fod mewn ysbyty gwahanol a gall oedi dechrau'r driniaeth. Mewn rhai sefyllfaoedd efallai y bydd angen i driniaeth ddechrau'n gyflym ac os felly efallai na fydd y driniaeth uchod yn bosibl.
- ☐ Gall rhywfaint o therapi gwrth-ganser niweidio datblygiad babi yn y groth. Mae'n bwysig peidio â beichiogi na chenhedlu plentyn tra'n cael triniaeth ac am ychydig fisoedd wedyn. Mae hefyd yn bwysig defnyddio dulliau atal cenhedlu effeithiol yn ystod ac ar ôl triniaeth. Siaradwch â'ch meddyg neu nyrs am hyn.

**Arall:**

- ☐ Mae risg uwch o ddatblygu canserau eraill pan yn hŷn (ail ganserau).
- ☐ Yn anaml iawn, gall cymhlethdodau triniaeth gyda therapi gwrth-ganser fod yn fygythiad bywyd neu hyd yn oed arwain at farwolaeth.
- ☐ Elifiad –
  Bydd ambell therapi gwrth-ganser yn achosi niwed i'r croen (llosgi) os ydynt yn gollwng o dan y croen pan gânt eu chwistrellu gan ddefnyddio nodwydd neu ganwla.

# Datganiad gweithiwr iechyd proffesiynol

Dynodydd/label claf

(parhad)

**Sgîl-effeithiau eraill (parhad)**

(Rhestrwch yma sgîl-effeithiau eraill neu faterion ychwanegol a drafodwyd ar adeg rhoi cydsyniad ar gyfer triniaeth, nad ydynt wedi'u rhestru uchod)

______________________________________________

______________________________________________

- ☐ Rwyf wedi trafod buddion bwriadedig y driniaeth a gynghorir a risgiau unrhyw driniaethau amgen sydd ar gael (gan gynnwys dim triniaeth).
- ☐ Rwyf wedi trafod sgîl-effeithiau'r driniaeth a gynghorir, a allai effeithio ar y claf ar unwaith neu yn y dyfodol, ac y gallai fod rhai sgîl-effeithiau heb eu rhestru oherwydd eu bod yn brin neu nad ydynt wedi'u hadrodd eto. Gall pob claf brofi sgîl-effeithiau yn wahanol.
- ☐ Rwyf wedi trafod yr hyn y mae'r driniaeth yn debygol o'i gynnwys (gan gynnwys triniaeth claf mewnol/allanol, amseriad y driniaeth, profion gwaed ac unrhyw brofion ychwanegol, apwyntiadau dilynol ac ati) a lleoliad.

**Argymhellir y cynllun a amlinellir uchod fel un sy'n cynnig y dewis gorau o driniaeth; fodd bynnag, nid yw hyn yn warant y bydd y driniaeth yn effeithiol yn erbyn y canser neu na fydd y canser yn dychwelyd (ailwaelu) yn y dyfodol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, gall opsiynau triniaeth amgen fod yn gyfyngedig iawn neu ddim ar gael a gallant arwain at farwolaeth o'r canser.**

Mae'r wybodaeth ychwanegol ganlynol wedi'i darparu:

______________________________________________

Cyswllt nyrs glinigol arbenigol(CNS)/gweithiwr allweddol: ______________________________

Wedi'i ddarparu â map ffordd triniaeth/taflen llif: ☐ Ydy ☐ Nac ydy

# Datganiad claf/rhiant gwarcheidwad cyfreithiol:

**Defnyddio gwybodaeth, meinwe a delweddu meddygol ar gyfer ymchwil glinigol a labordy:**

| | | |
|---|---|---|
| a. Rwy'n cytuno y gellir defnyddio meinwe (gan gynnwys gwaed, wrin a hylif asgwrn cefn) nad oes ei angen ar gyfer diagnosis neu fy nhriniaeth i/fy mhlentyn a'i storio ar gyfer ymchwil a all gynnwys ymchwil genetig. | ☐ Ydy | ☐ Nac ydy |
| b. Rwy'n cytuno y gall ymchwilwyr, neu awdurdodau rheoleiddio perthnasol, edrych ar adrannau perthnasol o'm cofnod meddygol i /fy mhlentyn, gan gynnwys delweddu meddygol, lle mae fy meinwe i /fy mhlentyn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil. Rhoddaf ganiatâd i'r unigolion hyn gael mynediad i'm cofnodion i /fy mhlentyn. | ☐ Ydy | ☐ Nac ydy |
| c. Rwy'n cytuno bod data ynghylch fy nghanser /i fy mhlentyn yn gallu cael eu rannu mewn cyhoeddiadau meddygol neu wyddonol ac mewn cynadleddau gyda'r diben o wella canlyniadau ar gyfer canser plentyndod. Ni fyddai modd fy adnabod i /fy mhlentyn. | ☐ Ydy | ☐ Nac ydy |
| d. Rwyf i/fy mhlentyn yn cydsynio i ddata clinigol rhannol ddienw gael ei rannu â chasgliadau data rhanbarthol/cenedlaethol/rhyngwladol, fel y bo'n briodol, gyda'r nod o wella canlyniadau cleifion. Mae data rhannol ddienw yn ddata na all eich adnabod fel person gan ddeiliaid y casgliadau data ond byddai'r Ymddiriedolaeth yn gallu cysylltu hwn yn ôl i'r wybodaeth y mae'n ei chadw amdanoch chi/eich plentyn. Rwy'n deall y gellir rhannu blaenlythrennau a'm dyddiad geni i/fy mhlentyn at y diben hwn. | ☐ Ydy | ☐ Nac ydy |
| e. Rwy'n hapus i nyrs ymchwil ddod i gysylltiad â fi am astudiaethau eraill y gallaf i/fy mhlentyn fod yn gymwys ar eu cyfer. | ☐ Ydy | ☐ Nac ydy |

Dynodydd/label claf

# Datganiad claf / rhiant gwarcheidwad cyfreithiol:

(parhad)

Bancio meinwe: Fe'ch gwahoddir i ystyried rhoi meinwe ar gyfer ymchwil a all fod yn weddill yn dilyn gweithdrefnau llawfeddygol/profion arferol y byddwch yn eu cael/wedi'u cael i wneud diagnosis a/neu drin eich canser. Bydd unrhyw feinwe o'r fath sy'n weddill yn cael ei storio ym Manc Meinwe dynodedig Grŵp Canser a Lewcemia Plant (CCLG).

Dim ond mewn prosiectau ymchwil sydd wedi'u cymeradwyo'n foesegol yn y DU a thramor sy'n cyfrannu at ein dealltwriaeth o ganserau mewn plant a phobl ifanc neu sydd o bosibl yn gwella'r triniaethau y gallwn eu cynnig y caiff samplau a roddwyd eu rhyddhau i'w defnyddio.

Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy holi eich tîm trin lleol neu ar y wefan ganlynol: cclg.org.uk/tissue-bank/information-for-patients

# Datganiad gweithiwr iechyd proffesiynol:

### Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn cael cydsyniad:

(Rhaid cwblhau cyn i'r claf ddechrau triniaeth)

Rwyf wedi egluro'r driniaeth i'r claf/rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol gan gynnwys y manteision a'r sgîl-effeithiau a fwriedir fel y nodir uchod.

Llofnodwyd:________________________________

Dyddiad:__________________________________

Enw (LLYTHRENNAU BRAS):_________________

Teitl swydd: _______________________________

### Cadarnhad o gydsyniad: (Rhaid cwblhau cyn i'r claf ddechrau triniaeth)

Ar ran y tîm sy'n trin y claf, rwyf wedi cadarnhau gyda'r claf/rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol nad oes ganddynt unrhyw gwestiynau pellach ac yn cytuno i'r driniaeth arfaethedig fynd rhagddi.

Llofnodwyd:________________________________

Dyddiad:__________________________________

Enw (LLYTHRENNAU BRAS):_________________

Teitl swydd: _______________________________

### Gwybodaeth ychwanegol:

Cysylltwch â'ch tîm ysbyty os oes gennych unrhyw gwestiynau am ganser a thriniaeth.

Isod, nodir rhywfaint o wybodaeth ychwanegol a allai fod yn ddefnyddiol yn ystod y driniaeth arfaethedig.

### Manylion cyswllt mewn argyfwng:

Dylid defnyddio'r wybodaeth ganlynol i gysylltu â'ch tîm trin os oes angen

Oriau gwaith arferol (Llun-Gwener): 09.00–17.00________________________________

Oriau gwaith arferol (Sad-Sul): 09.00–17.00__________________________________

Y tu allan i oriau (gyda'r nos/nosweithiau): 17.00–09.00__________________________

Mae'r gofod isod yn cael ei adael yn wag yn bwrpasol er mwyn caniatáu i chi gofnodi unrhyw wybodaeth yn ychwanegol at y broses cydsyniad ffurfiol, ond nad yw'n rhan ohoni:

Dynodydd/label claf

# Datganiad gweithiwr iechyd proffesiynol

(parhad):

**Cofrestru Canser:**

Ar ôl diagnosis o ganser, mae'r GIG yn cofnodi gwybodaeth amdanoch chi a'ch diagnosis trwy'r Gofrestrfa Ganser Genedlaethol sy'n rhan o Iechyd Cyhoeddus Lloegr. Cofrestru canser yw'r unig ffordd y gallwn ddeall faint o bobl sy'n cael canser, y mathau o ganser sydd ganddynt a llwyddiant unrhyw driniaethau. Mae cofrestru canser hefyd yn helpu i ysgogi ymchwil i ganser a gwella canlyniadau canser.

Cedwir unrhyw wybodaeth yn gyfrinachol ac yn ddiogel.
Gallwch optio allan o gofrestriad canser. Mae rhagor o wybodaeth am Gofrestru Canser a sut i optio allan ar gael yn: ndrs.nhs.uk

Mae'r ffurflen gydsynio hon wedi'i datblygu gan grŵp aml-broffesiynol sy'n gweithio ym meysydd canser plant ac oedolion ifanc a gefnogir ganFwrdd Cemotherapi y DU, Cancer Research UK a'r Grŵp Canser a LewcemiaPlant (CCLG).

# Datganiad claf/rhiant gwarcheidwad cyfreithiol:

(parhad)

**Darllenwch y ffurflen hon yn ofalus. Os yw triniaeth wedi'i chynllunio ymlaen llaw, efallai y bydd gennych gopi eich hun o'r ffurflen sy'n disgrifio buddion a risgiau'r driniaeth arfaethedig eisoes. Os na, cynigir copi i chi nawr. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, gofynnwch – rydym yma i'ch helpu. Mae gennych yr hawl i newid eich meddwl unrhyw bryd, gan gynnwys ar ôl i chi lofnodi'r ffurflen hon.**

☐ Rwy'n cadarnhau mai fi yw'r claf/person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y claf/person a enwir ar y ffurflen hon.

☐ **Rwy'n cytuno** i'r gweithdrefnau a'r cwrs o driniaeth a ddisgrifir ar y ffurflen hon.

☐ Rwy'n deall y bydd unrhyw weithdrefnau, yn ychwanegol at unrhyw rai a ddisgrifir ar y ffurflen hon, ond yn cael eu cynnal os oes angen i achub fy mywyd/bywyd fy mhlentyn neu i atal niwed difrifol i fy iechyd i/fy mhlentyn.

☐ Rwyf wedi cael gwybod am weithdrefnau ychwanegol a allai ddod yn angenrheidiol yn ystod cyfnod y driniaeth. Rwyf wedi rhestru isod unrhyw weithdrefnau nad wyf am iddynt gael eu cynnal heb drafodaeth bellach:

______________________________________________

______________________________________________

**Llofnod rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol:** ________________________ Dyddiad:______________________

Enw (LLYTHRENNAU BRAS):

______________________________________________

Dylai tyst lofnodi isod os nad yw'r rhiant/gwarcheidwad yn gallu llofnodi ond wedi nodi eu cydsyniad.

**Llofnod tyst:**______________________________________________Dyddiad:______________________

Enw (LLYTHRENNAU BRAS):

______________________________________________

Dynodydd/label claf

## Datganiad claf/rhiant gwarcheidwad cyfreithiol:
(parhad)

Gwahoddir y person ifanc a enwir ar flaen y ffurflen hon i lofnodi isod gan nodi ei fod yn cytuno neu'n cydsynio â'r driniaeth a amlinellir uchod:

---

**Llofnod y person ifanc:**__________________________________Dyddiad __________________________

Enw (LLYTHRENNAU BRAS): ______________________________________________________________

### Copi wedi ei dderbyn gan glaf/rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol:

☐ Ydy ☐ Nac ydy (ticiwch)

## Datganiad cyfieithydd (lle bo'n briodol)

**Cyfeirnod bwcio cyfieithydd** (os yw'n berthnasol):_____________________________________________

Rwyf wedi cyfieithu'r wybodaeth uchod i'r claf/rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol hyd eithaf fy ngallu ac mewn ffordd y credaf y gallant ei deall.

Enw (LLYTHRENNAU BRAS):_____________________________________________________________

Teitl swydd:________________________________________________________________________

**Llofnod claf/rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol:**__________________________Dyddiad:________________

Enw (LLYTHRENNAU BRAS):_____________________________________________________________

# Canllawiau i weithwyr iechyd proffesiynol

Dynodydd/label claf

(i'w ddarllen ar y cyd â pholisi cydsyniad yr ysbyty)

## Beth yw pwrpas ffurflen gydsynio

Mae'r ffurflen hon yn dogfennu cytundeb y claf i fwrw ymlaen â'r driniaeth a gynigiwyd gennych. Nid yw'n ildiad cyfreithiol – os nad yw cleifion, er enghraifft, yn derbyn digon o wybodaeth i seilio eu penderfyniad arni, yna efallai na fydd y cydsyniad yn ddilys, er bod y ffurflen wedi'i llofnodi. Mae gan gleifion hefyd yr hawl i newid eu meddwl ar ôl llofnodi'r ffurflen, os ydynt yn cadw'r galluedd i wneud hynny. Dylai'r ffurflen fod yn gymorth cof i weithwyr iechyd proffesiynol a chleifion, drwy ddarparu rhestr wirio o'r math o wybodaeth y dylid ei chynnig i gleifion, a thrwy alluogi'r claf i gael cofnod ysgrifenedig o'r prif bwyntiau a drafodwyd. Ni ddylid ystyried y wybodaeth ysgrifenedig a ddarperir ar gyfer y claf mewn unrhyw ffordd yn lle trafodaethau wyneb yn wyneb â'r claf.

## Y gyfraith ar gydsyniad

Gweler y cyhoeddiadau canlynol am grynodeb cynhwysfawr o'r gyfraith ar gydsyniad. Cydsyniad: Cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd, GMC 2008 (ar gael yn gmc-uk.org/guidance), a Chanllaw cyfeirio i gydsyniad ar gyfer archwiliad neu driniaeth, Yr Adran Iechyd, 2il argraffiad 2009 ar gael aewww.doh.gov.uk

## Pwy all roi cydsyniad

Rhagdybir bod gan bawb 16 oed neu hŷn y galluedd i roi cydsyniad drostynt eu hunain, oni bai y dangosir y gwrthwyneb. Os oes gan blentyn o dan 16 oed "ddigon o ddealltwriaeth a deallusrwydd i'w alluogi ef neu hi i ddeall yn llawn yr hyn a gynigir", yna bydd gan y plentyn y galluedd i roi cydsyniad ei hun.

Felly, gall pobl ifanc 16 a 17 oed, a phlant iau â galluedd, lofnodi'r ffurflen hon drostynt eu hunain, ond efallai yr hoffent i riant gydlofnodi hefyd. Os na all y plentyn roi cydsyniad, gall rhywun â chyfrifoldeb rhiant wneud hynny ar ei ran ac mae ffurflen ar wahân ar gael at y diben hwn. Hyd yn oed pan fydd plant yn gallu rhoi cydsyniad drostynt eu hunain, dylech bob amser gynnwys y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant yng ngofal y plentyn, oni bai bod y plentyn yn gofyn yn benodol i chi beidio â gwneud hynny. Os oes gan glaf y galluedd i roi cydsyniad ond nad yw'n gallu llofnodi ffurflen yn gorfforol, dylech lenwi'r ffurflen hon fel arfer, a gofyn i dyst annibynnol gadarnhau bod y claf wedi rhoi cydsyniad ar lafar neu'n ddieiriau.

## Pryd NA ddylid defnyddio'r ffurflen hon

Os yw'r claf yn 18 oed neu'n hŷn ac nad oes ganddo'r galluedd i roi cydsyniad, dylech ddefnyddio ffurflen arall (ffurflen ar gyfer oedolion nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio i ymchwiliad neu driniaeth). Nid oes gan glaf alluedd os oes ganddo nam neu aflonyddwch ar yr ymennydd, sy'n effeithio ar y ffordd y mae ei feddwl yn gweithio. Er enghraifft, os na allant wneud un o'r canlynol:

- deall gwybodaeth am y penderfyniad sydd i'w wneud
- cadw'r wybodaeth honno yn eu meddwl
- defnyddio neu bwyso a mesur y wybodaeth hon fel rhan o'u proses benderfynu, neu
- cyfleu eu penderfyniad (drwy siarad, defnyddio iaith arwyddion neu unrhyw ddull arall)

Dylech bob amser gymryd pob cam rhesymol (er enghraifft cynnwys cydweithwyr mwy arbenigol) i gefnogi claf i wneud ei benderfyniad ei hun, cyn dod i'r casgliad na all wneud hynny.

Ni ellir gofyn i berthnasau lofnodi ffurflen ar ran oedolyn sydd heb alluedd i gydsynio drostynt eu hunain, oni bai eu bod wedi cael yr awdurdod i wneud hynny o dan Atwrneiaeth Arhosol neu fel dirprwy llys.

## Gwybodaeth

Gwybodaeth am yr hyn y bydd y driniaeth yn ei olygu, ei buddion a'i risgiau (gan gynnwys sgîl-effeithiau a chymhlethdodau) a'r dewisiadau eraill yn lle'r weithdrefn arfaethedig benodol yn hanfodol i gleifion wrth iddynt benderfynu. Mae'r llysoedd wedi datgan y dylid hysbysu cleifion am 'risgiau sylweddol a fyddai'n effeithio ar farn claf rhesymol'.

Nid yw 'Sylweddol' wedi'i ddiffinio'n gyfreithiol, ond mae'r GMC yn mynnu bod meddygon yn dweud wrth gleifion am risgiau 'sylweddol, anochel neu sy'n digwydd yn aml'. Yn ogystal, os bydd cleifion yn nodi'n glir bod ganddynt bryderon penodol am fathau penodol o risg, dylech sicrhau eu bod yn cael gwybod am y risgiau hyn, hyd yn oed os ydynt yn fach iawn neu'n brin. Dylech bob amser ateb cwestiynau'n yn onest. Weithiau, efallai y bydd cleifion yn ei gwneud yn glir nad ydyn nhw eisiau cael unrhyw wybodaeth am yr opsiynau, ond eisiau i chi benderfynu ar eu rhan.

Mewn amgylchiadau o'r fath, dylech wneud eich gorau i sicrhau bod y claf yn cael gwybodaeth sylfaenol iawn o leiaf am yr hyn a gynigir. Os gwrthodir gwybodaeth, dylech gofnodi hyn ar y ffurflen ganiatâd neu yn nodiadau'r claf.

# Canllawiau i weithwyr iechydproffesiynol

(parhad)

Dynodydd/label claf

## GIG yr Alban

Dylai staff GIG yr Alban gyfeirio at **WelliantGofal Iechyd yr Alban**. Canllawiau ar gydsyniad ar gyfer SACT a chanllawiau Byrddau GIG lleol ar gydsyniad sy'n cyd-fynd â fframwaith cyfreithiol yr Alban.

## Cyfeiriadau:


1. Crynodeb o Nodweddion Cynnyrch (SmPCs) ar gyfer cyffuriau unigol: medicines.org.uk/emc
2. Cancer Research UK: cruk.org/aboutcancer/treatment/cancer-drugs
3. Cymorth Canser Macmillan: macmillan.org.uk/ information-and-support/treating/chemotherapy/drugs-and-combination-regimens
4. Ffurflenni cydsyniad cemotherapi Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Sefydledig GIG Guy’s a St. Thomas.